# Mesurau Diogelwch ar yr A48 rhwng Cross Hands a Phen-sarn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

AtkinsRéalis

Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

AtkinsRéalis - Baseline / Référence

# Golwg gyffredinol ar yr astudiaeth

- Mae coridor yr A48 rhwng Cross Hands a Phen-sarn yn rhan o'r cyswllt allweddol rhwng yr M4 a Gorllewin Cymru.
- Mae astudiaethau WelTAG wedi nodi nifer o gynlluniau cyffordd sy'n anaddas o ystyried cyflymder uchel y traffig ar y ffordd a allai arwain at wrthdrawiadau.
- Hefyd, nodwyd seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus is na'r safon a darpariaeth teithio llesol wael yn ardal yr astudiaeth.
- Mae'r problemau hyn yn destun pryder i Lywodraeth Cymru, Asiant Cefnffyrdd De Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.
- Maint ardal yr astudiaeth yw'r A48 rhwng Cross Hands a Phen-sarn.




# Y Broses Arfarnu/Dylunio

- WelTAG yw'r enw a roddir ar Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru a luniwyd gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio wrth ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth. Mae'r astudiaeth wedi symud ymlaen drwy Gamau Un a Dau WelTAG, ac mae Cam Tri yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gyfer rhai mesurau (e.e. gwelliannau i arosfannau bysiau, cilfannau a newidiadau pellach i gyffyrdd, yn ogystal â Cham Tri ar wahân ar gyfer cyffordd ddiwygiedig yn Nant-y-caws a chau bylchau cysylltiedig).

- Yn ogystal, mae'r astudiaeth wedi mynd drwy broses yr Adolygiad Ffyrdd. Cyhoeddodd yr Adolygiad Ffyrdd adroddiad a oedd yn argymell y dylid ariannu cynlluniau ffyrdd newydd dim ond os oeddent yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru ac y dylid eu datblygu at ddiben penodol yn unig. Roedd yr Adolygiad Ffyrdd yn cydnabod y pryderon diogelwch ar goridor yr A48 ac argymhellodd y dylid symud elfennau diogelwch yr astudiaeth yn eu blaenau.

- Mae pecyn o fesurau diogelwch wedi'i gyflymu y tu allan i broses WelTAG i liniaru'r pryderon diogelwch uniongyrchol. Mae'r dyluniadau wedi'u datblygu yn unol â'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd sy'n cynnwys y safonau cyfredol yn ymwneud â dylunio cefnffyrdd at bob diben a thraffyrdd yn y Deyrnas Unedig.



# Problemau Trafnidiaeth a Nodau Ehangach

- Yn ystod camau cynnar yr astudiaeth nodwyd nifer o faterion mewn perthynas â choridor yr A48, gan gynnwys:
  - Mae data am wrthdrawiadau ac adborth gan randdeiliaid wedi nodi mater diogelwch ffyrdd sy'n gysylltiedig â cherbydau'n croesi'r ffordd gerbydau.
  - Nodwyd bod cynllun rhai o'r cilfannau presennol yn is na'r safon.
  - Nodwyd y byddai cynllun rhai cyffyrdd ag is-ffyrdd yn elwa ar welliannau.
  - Seilwaith bysiau diogel a chyfleus cyfyngedig
  - Darpariaeth annigonol ar gyfer croesfannau Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar yr A48.


- Nodau ehangach y cynllun yw:
  - Gwella diogelwch i yrwyr sy'n defnyddio'r A48.
  - Lleihau'r risg diogelwch i ddefnyddwyr teithio llesol yn ardaloedd yr astudiaeth.
  - Lleihau effaith mesurau diogelwch ar fynediad.
  - Gwella gwydnwch y rhwydwaith ar hyd yr A48.

# Cynigion y Cynllun - Mesurau Diogelwch ar yr A48

- Bydd cynigion y cynllun yn gwella diogelwch i ddefnyddwyr y ffordd ar hyd yr A48 yn bennaf drwy gau bylchau yn y llain ganol a chau chwe chilfan (pedair tua'r dwyrain, dwy tua'r gorllewin) ar hyd coridor yr A48 o Ben-sarn i Cross Hands i leihau'r risg o ddamweiniau posibl yn y dyfodol yn y lleoliadau a nodwyd.
- Ystyriodd y newidiadau i'r cyffyrdd yr effeithiau ar ddefnyddwyr y ffordd o ran pellteroedd dargyfeirio ac amseroedd teithio wrth i'r gwaith arfaethedig gynnwys:
  - Addasu cyffordd Llanddarog i ganiatáu i fysiau yn unig droi i'r dde i'r gyffordd o'r ffordd gerbydau tua'r dwyrain a chyfyngu ar droi allan i'r dde, gan reoli hyn drwy gamerâu gorfodi;
  - Addasu cyffordd Pantyffynnon i gyfyngu ar droi i'r dde allan o'r gyffordd;
  - Cau'r bylchau yn y llain ganol ger cyffyrdd Llanarthne a Foelgastell i gyfyngu ar droi i'r dde i mewn ac allan o'r ddwy gyffordd;
  - Cau'r bwlch yn y llain ganol ger cyffordd Maes-y-bont i gyfyngu ar droi i'r dde i mewn ac allan o'r ddwy gyffordd;
  - Addasu arwyddion cyfeirio ymlaen llaw i adlewyrchu llwybrau dargyfeirio sy'n ofynnol ar gyfer newidiadau i'r llain ganol; a
  - Cau chwe chilfan sy'n is na'r safon (pedair tua'r dwyrain, dwy tua'r gorllewin)


# Cynigion y Cynllun - Llanddarog

- Mae cynnig y cynllun wrth gyffordd Llanddarog yn cynnwys cyflwyno lôn troi i'r dde i fysiau yn unig o'r ffordd gerbydau tua'r dwyrain a chyfyngu ar droi i'r dde allan o'r gyffordd drwy ynys draffig. Bydd y cyfyngiad hwn yn cael ei reoli gan gamerâu gorfodi.




# Cynigion y Cynllun - Pantyffynnon

- Mae cynnig y cynllun wrth gyffordd Pantyffynnon yn cynnwys cyfyngu ar droi i'r dde allan o'r gyffordd drwy addasiadau i'r llain ganol ac ynys draffig.




# Cynigion y Cynllun - Llanarthne

- Mae cynnig y cynllun wrth gyffordd Llanarthne yn cynnwys cau'r llain ganol ac addasu'r ynys draffig ar y ffordd ymyl i gyfyngu ar droi i'r dde i mewn ac allan o'r gyffordd.




# Cynigion y Cynllun - Foelgastell

- Mae cynnig y cynllun wrth gyffordd Foelgastell yn cynnwys cau'r llain ganol ac addasu'r ynys draffig ar y ffordd ymyl i gyfyngu ar droi i'r dde i mewn ac allan o'r gyffordd.




# Cynigion y Cynllun - Maes-y-bont

- Mae cynnig y cynllun wrth gyffordd Maes-y-bont yn cynnwys cau'r llain ganol ac addasu'r ynys draffig ar y ffordd ymyl i gyfyngu ar droi i'r dde i mewn ac allan o'r gyffordd, yn ogystal â newidiadau i'r groesfan hawl tramwy cyhoeddus bresennol.



# Cynigion y Cynllun - Cau Cilfannau

- Fel rhan o'r cynllun hwn, cynigir cau chwe chilfan ar hyd yr A48 hefyd oherwydd eu bod yn is na'r safon (pedair tua'r dwyrain, dwy tua'r gorllewin). Dangosir cilfannau tua'r dwyrain gan y pin glas, a dangosir cilfannau tua'r gorllewin mewn coch.
- Ystyriwyd y pellter rhwng cilfannau ar hyd y coridor yn ogystal a pha mor agos ydynt at gyffyrdd yn ystod yr ymarfer rhesymoli hwn.



# Rhaglen Adeiladu

- Llinell Amser Adeiladu
  - Dyddiad dechrau disgwyliedig - hydref/gaeaf 2026.
  - Rhagwelir llinell amser o 4 mis i gyflawni'r holl waith (yn dibynnu ar y tywydd).
- Cau lonydd dros dro
  - Rhagwelir y bydd angen gwneud hyn ar gyfer rhai agweddau ar y gwaith, yn enwedig yn y llain ganol i sicrhau diogelwch.
  - Darperir hysbysiad ymlaen llaw o'r gwaith ar y safle.
- Ymgynghori'n barhaus â'r cyhoedd
  - Bydd rhif ffôn cyswllt ac e-bost yn cael eu darparu ar gyfer unrhyw ymholiadau.
  - https://traffig.cymru/rhybuddion-traffig

# Lliniaru Tarfu ar Deithio

- Er mai'r prif reswm dros y cynlluniau yw gwella diogelwch ar hyd y coridorau, cydnabyddir y gallai fod tarfu ar deithio yn ystod y cyfnod adeiladu.
- Rhagwelir y bydd rhywfaint o darfu yn ystod y gwaith adeiladu oherwydd cyfyngiadau'r safle a maint y traffig sy'n defnyddio'r A48.
- Bydd angen cau lonydd er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel.
- Bydd gwaith yn cael ei wneud oddi ar y ffordd lle bo modd i leihau tarfu ar y cyhoedd sy'n teithio.
- Darperir gwybodaeth ar https://traffig.cymru/rhybuddion-traffig



# Y Camau Nesaf – Mesurau Diogelwch ar yr A48

- Mae'r camau nesaf ar gyfer Mesurau Diogelwch ar yr A48 yn cynnwys paratoi'r gorchmynion traffig ar gyfer y newidiadau i gyffyrdd a chilfannau.
- Cyflogi Contractwr i gyflawni'r gwaith.
- Datblygu strategaeth monitro ar ôl adeiladu.



AtkinsRéalis - Baseline / Référence